

MANYLEB ASESU LEFEL 5

Enw'r myfyriwr:		Rhif Adnabod y myfyriwr:	
Rhaglen:	BA Addysg Gynradd gyda SAC		
Modwl:	Yr Iaith ar Daith 2		
Cod y modwl:	ECAD5002C	Cyfraniad Asesiad Cyffredinol Modwl (%):	at y 60%
Darlithydd:	Diane Thomas	Gwiriwr Mewnol:	Diane Thomas
Teitl yr Aseiniad:	Portffolio Tystiolaeth	Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):	1750 o eiriau Ffilm hyd at 8 mun
Dyddiad cyflwyno:	19/3/19	Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:	16/4/19
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol): Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb. Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:	Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

**Deilliannau Dysgu'r Modwl
(o faes llafur y modwl)**

1. Cyfathrebu yn Gymraeg ar lafar, darllen ac ysgrifennu yn ôl eu cyraeddiadau ieithyddol gan ddangos datblygiad o'u lefel blaenorol.
2. Gwerthuso amryw o fethodolegau addysgu iaith ychwanegol.
3. Archwilio'n feirniadol berthynas y cwricwlwm Cymraeg / Cymraeg Ail Iaith o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 â'r cwricwlwm cyfan, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig.

DISGRIFIAD O'R DASG

Teitl:: Portffolio Tystiolaeth – 60%

Tasg 1: Dewis stori addas i'w chyflwyno i grŵp o blant gan nodi'r rhesymeg dros ddewis y stori honno a'r prif nodau ynghlwm wrth ddewis y stori. Dylid nodi'r gynulleidfa arfaethedig, a'r math o gyfleoedd addysgu iaith y byddai'r stori yn eu cynnig. Paratoi un adnodd sy'n seiliedig ar y stori ac yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith neu fel iaith gyntaf. (hyd at 250 gair)

Tasg 2: Darllen stori i grŵp o blant yn ystod eich cyfnod PAP a chwblhau un gweithgaredd sy'n gwneud defnydd o'r adnodd sydd wedi'i baratoi gennych. Bydd angen i chi ffilmio'r gweithgaredd hwn i'w ddadansoddi gennych ac i'w gyflwyno fel rhan o asesiad y modwl. (hyd at 8 munud)

Tasg 3: Adfyfyriad ysgrifenedig ar dasg 2 (hyd at 1500 gair)

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pedwar maen prawf asesu penodol i'r modwl drosodd.

1. Gwrando a deall

Mae'n rhaid i'ch gwaith brofi eich bod yn manteisio ar bob cyfle – oddi fewn i'ch ystod gallu – i osod tasgau ac ymgymryd â gweithgaredd sy'n profi eich bod yn gwrando ar y ffordd y mae'r dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg ac yn eu deall trwy ymateb yn briodol. Dylech ddarparu tystiolaeth eich bod yn annog dysgwyr i gyfathrebu oddi fewn i'w cyraeddiadau ieithyddol yn y Gymraeg gan feithrin datblygiad pellach.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth weledol a chlywedol sy'n seiliedig ar ddarllen stori a chynnal gweithgaredd gyda'r dysgwyr.

2. Llafar

Mae'n rhaid i'ch gwaith gynnig tystiolaeth eich bod yn manteisio ar bob cyfle - oddi fewn i'ch ystod gallu - i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar gyda'r dysgwyr. Disgwylir i chi ddewis stori a gweithgaredd fydd yn cynnig cyfleoedd i ymestyn sgiliau llafar Cymraeg y dysgwyr oddi fewn i'w cyraeddiadau ieithyddol gan feithrin datblygiad pellach. Dylid arddangos dulliau amrywiol o addysgu'r iaith megis drilio, canu, gofyn cwestiynau ynghyd ag unrhyw fethodolegau perthnasol er mwyn ymestyn dealltwriaeth a defnydd y dysgwyr o'r Gymraeg ar lafar. Dylech ddarparu tystiolaeth weledol a chlywedol sy'n dangos ymdrech i fodelu iaith a chynnig arweiniad ieithyddol ar lafar i'r dysgwyr.

3. Darllen

Disgwylir i chi ddewis a darllen stori sy'n addas i'ch dysgwyr a'u cyraeddiadau ieithyddol. Dylech gynnig tystiolaeth weledol a chlywedol sy'n profi - oddi fewn i'ch ystod gallu - eich bod yn darllen y stori mewn ffordd sy'n profi eich dealltwriaeth chi o ystyr y testun ynghyd â'ch dealltwriaeth o botensial y testun fel adnodd sy'n datblygu sgiliau Cymraeg eich dysgwyr. Dylid manteisio ar unrhyw gyfle posibl i feithrin sgiliau darllen ac ynganu'r dysgwyr wrth ddarllen y stori a chyflwyno adnodd sy'n seiliedig ar y stori.

4. Ysgrifennu

Bydd dwy elfen i waith ysgrifenedig y portffolio.

- i) Disgwylir i bob myfyriwr gyflwyno modelau ysgrifennu cywir Cymraeg – oddi fewn i'ch ystod gallu - i'r dysgwyr . Dylech gyflwyno tystiolaeth weledol ar ffurf ffilm ac adnodd ysgrifenedig atodol o'ch gallu i gyflwyno'r Gymraeg yn ysgrifenedig at ddibenion ymestyn sgiliau ysgrifennu'r dysgwyr sydd yn eich dosbarth.
- ii) Disgwylir i fyfyrwr adfyfrio'n ysgrifenedig ar y dasg a gyflwynir ar ffurf ffilm. Dylid cytuno ar gyfrwng iaith y darn ysgrifenedig gyda'ch tiwtor **cyn** i chi gyflwyno'r gwaith. Asesir eich gallu i ddadansoddi'n feirniadol nod ac amcanion y dasg trwy gyfrwng strwythur ac arddull briodol sy'n caniatáu i chi gyfleu'r ffordd yr oeddech yn ceisio datblygu sgiliau Cymraeg eich dysgwyr ochr yn ochr ag adfyfrio ar eich llwyddiant wrth wneud hynny.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Penodol i'r Modwl	Marciau sydd ar gael	Marciau a ddylfarnwyd
1. Gwrando a deall	15	
2. Llafar	40	
3. Darllen	15	
4. Ysgrifennu	30	

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)		%
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF PENODOL I'R MODWL

Lefel 5

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 5 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi datblygu gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth, ac o'r modd y datblygwyd yr egwyddorion hynny. Byddant wedi dysgu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion hynny'n fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn cyd-destun cyflogaeth. Bydd ganddynt wybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y maes pwnc, a gallu i werthuso'n feirniadol ddulliau gwahanol o ddatrys problemau. Byddant yn meddu ar ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau. Byddant yn gallu defnyddio ystod o dechnegau sefydledig i gychwyn ac ymgymryd â dadansoddiad beirniadol o wybodaeth, ac i gynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad hwnnw. Byddant yn gallu cyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol, a defnyddio technegau allweddol y ddisgyblaeth yn effeithiol. Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach, datblygu sgiliau cyfredol, ac ennill cymwyseddau newydd a fydd yn eu galluogi i dderbyn cyfrifoldebau sylweddol o fewn sefydliadau. Bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
MEINI PRAWF PENODOL I'R MODWL: Portffolio							
Gwrandd a deall	Ddim yn ymdrechu i rhyngweithio yn y Gymraeg nac yn ymateb mewn unrhyw ffordd.	Ddim yn rhyngweithio ag eraill yn y Gymraeg.	Yn dechrau rhyngweithio yn Gymraeg drwy ddeall ac ymateb i gwestiynau syml sy'n berthnasol i'r dasg ac i sefyllfaoedd ystafell ddosbarth.	Yn rhyngweithio'n dda yn Gymraeg ac yn dechrau deall ac ymateb yn annibynnol mewn sefyllfaoedd grŵp.	Yn rhyngweithio'n dda iawn yn Gymraeg gan ddeall ac ymateb yn annibynnol mewn sefyllfaoedd grŵp.	Yn rhyngweithio'n hyderus yn Gymraeg ac yn bwrpasol gan ddeall a wahaniaethu rhwng sefyllfaoedd grŵp ac un-i-un.	Yn rhyngweithio'n hyderus iawn yn Gymraeg ac yn bwrpasol gan ddeall ac ymateb yn ddigymell gydag unigolion a grwpiau.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
Llafar	Ddim yn ymdrechu i gyfathrebu ar lafar yn Gymraeg.	Heb fod yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar. Siarad yn aneglur, yn undonog, â llawer o oedi heb ynganu'n gywir nac yn Gymreig.	Yn dechrau cyfathrebu'n effeithiol ar lafar. Siarad yn eglur ar y cyfan, gyda pheth oedi, ac ymgais i ynganu'n gywir a Chymreig.	Yn gyffredinol, yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar. Siarad yn eglur, heb fawr o oedi gydag ynganiad Cymreig ar y cyfan. Hyder cynyddol i adnabod gwallau personol a'u cywiro.	Yn cyfathrebu ar lafar gan amlaf yn effeithiol iawn. Siarad yn eglur gan fwyaf, dim oedi ac ynganiad Cymreig. Hyder i adnabod gwallau personol a gwallau eraill a'u cywiro.	Yn cyfathrebu ar lafar yn hyderus a chydlynol heb oedi ac ynganiad Cymreig a chywir. Cywiro gwallau personol lle bo angen a chywiro gwallau eraill yn ddidrafferth ar y cyfan.	Yn cyfathrebu ar lafar ac yn arwain trafodaethau sy'n cynnwys terminoleg fwy technegol yn gwbl hyderus a chydlynol heb oedi o gwbl ac ynganiad cwbl Gymreig a chywir. Cywiro gwallau eraill yn ddidrafferth a hynny'n gywir ac yn glir.
Darllen a deal	Dim dealltwriaeth nac ymdrech i ddeall testun.	Dealltwriaeth arwynebol o'r testun. Gallu darllen straeon syml ond heb ynganu'n gywir na chyfleu ystyr yr awdur.	Dealltwriaeth foddhaol o'r testun. Gallu darllen straeon syml gydag ymgais i ynganu'n gywir gan ddechrau cyfleu ystyr yr awdur.	Dealltwriaeth dda o'r testun. Gallu darllen straeon addas ac ynganu'n gywir ar y cyfan gan gyfleu ystyr yr awdur yn gyffredinol.	Dealltwriaeth dda iawn o'r testun. Gallu darllen straeon addas yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir mewn ffordd sy'n cyfleu ystyr yr awdur.	Dealltwriaeth aeddfed o'r testun. Gallu darllen straeon addas yn hyderus ac ystyrion gan gyfleu ystyr yr awdur yn gwbl gywir	Dealltwriaeth lwyr o'r testun. Gallu darllen straeon addas yn gwbl hyderus, ac yn ystyrion gan gyfleu ystyr yr awdur yn gwbl gywir a'i gyfoethogi lle bo cyfle.
Ysgrifennu	Arddull ysgrifennu anodd i'w ddeall. Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd	Strwythur gwan ac arddull ysgrifennu aneglur. Braid dim brawddegau na chystrawennau cywir a'r eirfa'n wan. Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn	Strwythur ac arddull ysgrifennu boddhaol. Rhai brawddegau a chystrawennau yn gywir gan ddefnyddio geirfa foddhaol. Ymgais cyfyngedig at werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth i gefnogi	Strwythur da gydag arddull ysgrifennu clir. Brawddegau a chystrawennau'n gywir yn gyffredinol gan ddefnyddio geirfa addas. Rhywfaint o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, er ei fod yn ddisgrifiadol	Strwythur da iawn ac arddull ysgrifennu sy'n cynnal y darlennydd. Brawddegau a chystrawennau'n gywir gan fwyaf, geirfa dda iawn. Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau mewn modd beirniadol, cadarn. Yn ddethol o ran ystod y	Strwythur ac arddull ysgrifennu ardderchog sy'n ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd. Brawddegau ymestynnol a chystrawennau'n gywir, geirfa gyfoethog. Gwerthuso a dadansoddi	Strwythur ac arddull ysgrifennu aeddfed a rhagorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd. Brawddegau ymestynnol a chystrawennau'n hollol gywir, geirfa gyfoethog ac idiomatig. Gwerthuso a dadansoddi

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
	beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys.	modd beirniadol. Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail.	dadleuon a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol, ag ychydig o anghysondeb / camddehongli neu wedi methu cydnabod yn llawn y cyfyngiadau ar wybodaeth.	mewn mannau. Ymwybyddiaeth gynyddol o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth a'u gallu i ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi'r ddadl er gyda thuedd i daeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan.	dystiolaeth a ddefnyddir ac yn cyfuno yn hytrach na disgrifio. Gallu i ddyfeisio dadleuon sy'n dangos ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol, ac i ddefnyddio tystiolaeth mewn modd argyhoeddiadol i gefnogi barn briodol a dilys.	cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, rhagorol gan arwain at ddadleuon a barn rhesymegol a rhesymedig ar sail tystiolaeth. Cydnabyddiaeth eglur o safbwyntiau eraill ac ymwybyddiaeth gref o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth. Gallu i feddwl yn annibynnol ac i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu rhywfaint o afael ar y maes a'r cysyniadau ehangach.	cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, eithriadol. Defnyddia dystiolaeth yn eithriadol o dda i gysylltu syniadau, a chefnogi dadleuon a barn rhesymegol ac argyhoeddiadol iawn. Tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael eglur ar y maes a'r cysyniadau ehangach. Cydnabyddiaeth dreiddgar o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG